

Gweithgareddau

Canolfan Gelfyddydau'r Eglwys Norwyaidd

Y Nadolig hwn, caiff y siop goffi fwyaf cysurus ym Mae Caerdydd ei thrawsnewid yn lleoliad ar gyfer Partion Nadoligaidd. Mae'r Eglwys hefyd yn cynnal nifer o gyngerddau, marchnadoedd a digwyddiadau Nadolig. ☎ 029 2087 7948 / 7959
📧 www.norwegianchurchcardiff.com

Cei'r Fôr-Forwyn

Pa un a ydych chi'n chwilio am leoliad i gynnal parti neu rywle i ymlacio, bwyta bwyd o safon neu fyrbryd wrth fynd, anrheg Nadolig neu rywbeth i'ch cartref, mae barrau, bwyta, siopau a gwasanaethau glan y dŵr Cei'r Fôr-Forwyn at ddant a phoced pawb. Y lleoliad perffaith, beth bynnag fo'r tywydd. 📧 www.mermaidquay.co.uk

Canolfan y Red Dragon

Dewch i MEWN a chwarae yn y Ganolfan Red Dragon y gaeaf hwn. Gyda chymaint o leoedd i fwyta, yfed a chwarae ynghyd â pharcio am ddim i gwsmeriaid, mae popeth yr ydych ei angen ar gyfer y diwrnod a'r noson berffaith. Pa un a ydych chi'n ymuno â ni am y ffilm fawr ddiweddaraf neu barti Nadolig eich swyddfa, bowlio deg neu fwynhau pryd o fwyd gyda'ch anwyliaid, byddwch yn siŵr o lawenhau y Nadolig hwn! Ar agor bob dydd ac eithrio Dydd Nadolig. 📧 www.thereddragoncentre.co.uk

Canolfan Mileniwm Cymru

Cartref Cenedlaethol Cymru ar gyfer y celfyddydau perfformio ac un o brif atyniadau diwylliannol y DU. Gall ein hymwelwyr fwynhau amrywiaeth o sioeau a digwyddiadau o bob oedran, gan gynnwys arddangosfeydd celf, gweithdai, gweithgareddau i'r teulu, bariau a bwyta. ☎ 029 2063 6464 📧 www.wmc.org.uk

Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd

Rhowch yr anrheg Nadolig gorau iddynt! Prynwch daleb i ffrindiau a theulu, fel y gallant brofi Rafftio Dŵr Gwyn, Ton Dan Do, Antur Awyr a mwy. ☎ 029 2082 9970 📧 www.ciww.com

Aros yn y Bae

Pa un a ydych chi ar wyliau mewn dinas arall, yn gweld sioe gyda'ch ffrindiau neu ar drip siopa Nadolig, ceir amrywiaeth o leoedd gwych i chi aros yn y Bae.

Lle yn y Ddinas

Gostyngiad o 20% yn y Cei yn ystod gaeaf 2017. I hawlio eich cynnig, dyfynnwch "Quayside Christmas", mae telerau ac amodau'n berthnasol. I gadw lle mewn llety cysylltwch â ni ar ☎ 029 2009 9889
📧 www.aspaceinthecity.co.uk Manteisiwch ar ein Rhaglen Bartneriaeth wych a chael gostyngiad ar eich llety yn ogystal ag yn yr ardal leol. www.aspaceinthecity.co.uk/partnership-programme

Gwesty'r Gyfnewidfa

Mae Gwesty'r Gyfnewidfa'n gwbl unigryw. Lleolir yr adeiladu Rhestredig Gradd II* yng nghanol Bae Caerdydd ac mae'n rhoi'r cyfle i westeion gamu'n ôl mewn amser a dysgu am un o adeiladau mwyaf trawiadol Cymru. Yn llawn hanes cyfoethog a mawredd, mae'r Gyfnewidfa wedi'i dychwelyd i'w hen ogoniant gyda nodweddion gwreiddiol wedi'u cadw a'r Neuadd Fawr wedi'i hadfer fel y lleoliad mwyaf eiconig yn y ddinas. ☎ 029 2010 7050 📧 www.exchangehotelcardiff.co.uk

Holiday Inn Express

☎ 029 2044 9000 📧 www.exhcardiff.co.uk

Gwesty a Sba Dewi Sant

I ddianc gerwinder y gaeaf, mwynhewch becyn gaeaf moethus yng Ngwesty a Sba Dewi Sant. ☎ 029 2045 4045 📧 www.thestdavidshotel.com

Gwersyll yr Urdd yn y Ddinas

Rhewi prisiau dros y Nadolig! Arhoswch yng Ngwersyll yr Urdd yn y Ddinas ar unrhyw ddyddiad drwy gydol mis Rhagfyr a mis Ionawr a derbyn gostyngiad o 20% ar eich llety. Mae llety â bwyd a llety i grwpiau ar gael gyda chyfleusterau diogel a modern yng nghanol y Bae. Dyfynnwch GG2017 wrth gadw lle. Telerau ac amodau'n berthnasol. ☎ 029 2063 5678 📧 www.urdd.cymru

Mae'r Partneriaid Glan y Dŵr yn sefydliad nid er elw gydag aelodau'n cynrychioli trawstoriad unigryw o'r gymuned gan gynnwys llywodraeth leol, marchnadoedd elusennol, datblygwyr a busnesau preifat. I gael rhagor o wybodaeth am ddiwyddiadau a nodir yn y daflen hon, gan gynnwys amseroedd a phrisiau tocynnau, ewch i'n wefan neu cysylltwch â Chanolfan Ymwelwyr Bae Caerdydd ar 029 2087 3573.



 /CardiffBayOfficial

 @VisitCardiffBay



Darperir y daflen hon i chi gan Bartneriaid Glan y Dŵr Bae Caerdydd.

Design and production by Accent Creative

Croeso i Fae Caerdydd



Canllaw Digwyddiadau Gaeaf 2017/2018



visitcardiffbay.info



Atyniadau

Canolfan Ymwelwyr Bae Caerdydd

Ymwelwch â'r Ganolfan Croeso, yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, i gael gwybôd mwy am ddiwyddiadau Nadoligaidd yn y Bae. Mae gwasanaethau'n cynnwys prynu tocynnau ar gyfer atyniadau/teithiau, siop rodion hyfryd, staff gwybodus a chyfeillgar. Gwybodaeth am ddim. Prynwch ein Cerdyn Ymwelydd Caerdydd newydd i gael llawer o ostyngiadau ar atyniadau a manwerthu ar draws y ddinas. ☎ 029 2087 3573 📧 www.croesocaerdydd.com

Techniquet

130 o arddangosfeydd ymarferol a difyr, Sioeau Theatr Wyddonol a gwyllo'r sêr yn unig Blanetariwm digidol Cymru. ☎ 029 2047 5475 📧 www.techniquet.org

Her Cymru

Ymunwch â ni drwy'r flwyddyn i hwyllo ar long uchel Cymru. Mae tocynnau rhodd Her Cymru ar gael er mwyn cynnig anrheg unigryw, wfreiddiol a gwirioneddol fythgofiadwy. Nid oes angen i chi gael unrhyw brofiad hwyllo. ☎ 029 20 704 657 📧 www.challengewales.org

Natuzzi

Mae siop Natuzzi yn cyflwyno steil Eidalaid i Fae Caerdydd, gydag amrywiaeth o soffas, dodrefn ac ategolion. Mae ein tîm cyfeillgar yma i'ch cynorthwyo i brynu'r cynnyrch cywir i weddu'ch ffordd o fyw. ☎ 029 2048 8698 📧 www.natuzzi.com

Siop a Chaffi'r Senedd

Bydd gan siop y Senedd gasgliad eang o anrhegion Nadoligaidd; Siocled blasus, hamperi, cardiau Nadolig, llyfrau, dillad gaeaf, addurniadau Nadolig a llawer mwy! Mae siop a chaffi'r Senedd ar agor saith niwrnod yr wythnos, ac i'ch helpu chi i fynd i ysbryd y Nadolig bydd gennym fwyden Nadoligaidd gyda bwyd a diod addas.

Canolfan Iâ Caerdydd

Byddwch yn rhan o'r bwrlwm ac ymuno â Cardiff Devils ar noson pan fyddant yn chwarae, neu ewch i'w siop am syniadau ar gyfer anrhegion Nadolig. ☎ 029 2038 2001 📧 www.cardiffdevils.com

Marina Caerdydd

Ymwelwch â Chaerdydd y Nadolig hwn ac arhoswch ym Marina Caerdydd. Angorfeydd i ymwelwyr dim ond £10 y noson dros gyfnod y Nadolig (1 Rhagfyr - 4 Ionawr). I gadw angorfa, ffoniwch: ☎ 029 2039 6078 neu 📧 www.themarinegroup.co.uk

Urdd Gwneuthurwyr Cymru - Crefftau yn y Bae

Prynwch anrhegion hyfryd y Nadolig hwn wedi'u creu gan ein gwneuthurwyr dylunwyr talentog o Gymru, ewch i'n Sioe Nadolig a chymryd rhan mewn gweithdai crefftau creadigol i'r teulu i gyd. ☎ 029 2048 4611 📧 www.makersguildinwales.org.uk

Tachwedd

1 - 7
ION **Sioe Grefftau Nadolig**
Crefftau yn y Bae - Anrhegion wedi'u gwneud â llaw gan wneuthurwyr dylunwyr gorau'r DU.

4 - 5 **Gwyddoniaeth Gythreulig**
Technique - Erioed wedi gweld pwrpen yn cerfio'i hun, neu geiniog yn sgrechian? A ellir defnyddio gwyddoniaeth i greu moddion hudolac ysbrydion?

10 **Diwrnod Babanod - Trafferth mewn Bocs Teganau**
Technique - Unwaith y mis yn ystod y tymor mae plant cyn-ysgol yn cael rhydd hynt i weld yr arddangosfeydd a cheir gweithgareddau ar thema arbennig.

10 - 11 **Gŵyl Ddawns Caerdydd a Chanolfan Mileniwm Cymru'n cyflwyno - Pogl**
Canolfan Mileniwm Cymru.

10 - 7
ION **Arddangosfa Gwydr Lliw**
Crefftau yn y Bae - Casgliad trawiadol o wydr wedi'i baentio â llaw gan yr artist sydd wedi ennill gwobrau, Christian Ryan.

11 - 12 **Cemeg Liwgar**
Technique - Sut y mae newidiadau lliw yn digwydd mewn adweithiau cemegol? Sut gall cemeg roi lliw, ynni a golau i ni?

13 - 25 **Sioe Gerdd Tiger Bay**
Canolfan Mileniwm Cymru.

17 - 7
ION **Arddangosfa Decstiliau**
Crefftau yn y Bar - Casgliad newydd o byrsiau a bagiau gan yr artist, Alys Wall.

18 - 19 **Cemeg Liwgar**
Technique - Sut y mae newidiadau lliw yn digwydd mewn adweithiau cemegol? Sut gall cemeg roi lliw, ynni a golau i ni?


25 - 26 **Cemeg Liwgar**
Technique - Sut y mae newidiadau lliw yn digwydd mewn adweithiau cemegol? Sut gall cemeg roi lliw, ynni a golau i ni?

26 **Diwrnod Gwneud Ffelt**
Crefftau yn y Bau - Creu eich bag ffelt eich hun gyda'r artist tecstilau Claire Cawte.

29 - 6
ION **Miss Saigon**
Canolfan Mileniwm Cymru.

29 - 31 **Nadolig yn y Ganolfan**
RHAG Canolfan Mileniwm Cymru - Dewch i fwynhau'r awyrgylch Nadoligaidd a mwynhau crefftau, adrodd straeon a mwy ledled y Ganolfan. Gweler y wefan am yr holl fanylion.

30 - 2
RHAG **Hijinx Odyssey'n cyflwyno - Ail Seren i'r Dde**
Canolfan Mileniwm Cymru.



Rhagfyr

1 **Diwrnod Babanod - Plu Eira a Sbarcs**
Technique - Unwaith y mis yn ystod y tymor mae plant cyn-ysgol yn cael rhydd hynt i weld yr arddangosfeydd a cheir thema arbennig.

2 - 3 **Cemeg Liwgar**
Technique - Sut mae newidiadau lliw yn digwydd mewn adweithiau cemegol? Sut gall cemeg roi lliw, ynni a golau i ni?

7 - 23 **Swyddfa Bost Sion Corn (Am Ddim)**
Ceir Fôr-Forwyn - Mae'r Swyddfa Bost hudol a rhyfeddol yn dychwelyd i Geir Fôr-Forwyn - eleni mewn lleoliad newydd yng nghanol y ganolfan. Ewch i weld y corachod, ysgrifennwch eich llythyr at Sion Corn a chael ateb. Ar agor rhwng canol bydd a 5pm bob dydd. Rhagor o fanylion ar y wefan www.mermaidquay.co.uk

9 - 10 **Hud Gwyddoniaeth**
Technique - Dewch i brofi rhai rhithiau anghredadwy, ac yna gwyllo wrth i ni ddatgelu'r wyddoniaeth y tu ôl i'r hud.

10 **Diwrnod Crochenwaith**
Crefftau yn y Bae - Rhowch gynnig ar wneud potiau ar yr olwyn ac â llaw gyda'r crochenydd Billy Adams.

Creu Het Corrach! (am ddim)

Canolfan Red Dragon - Dyluniwch eich het Corrach eich hun gyda chymorth gan helpwyr bach Sion Corn! Bydd y Prif Gorrach yn dyfarnu tystysgrif bersonol i chi a gallwch hyd yn oed gwblhau'ch gweddnewidiad yn stondin paentio wyneb Elfie. Hefyd, cadwch lygad allan am Gorrach rhyfeddol â'i garw ANFERTH ei hun ar ffurf pyped! 12-4pm

12 - 31 **The Bear: yn seiliedig ar y llyfr gan Raymond Briggs**
Canolfan Mileniwm Cymru.

14 **Ar ôl oriau agor: Y Nadolig**
Technique - Pwy sy'n dweud mai plant sy'n cael yr hwyl i gyd? Manteisiwch ar y cyfle i fod yn blentyn eto a chwarae gydag arddangosfeydd, sioeau a gweithdai. 6:30-10pm, 18+ yn unig

16 - 17 **Hud Gwyddoniaeth**
Technique - Dewch i brofi rhai rhithiau anghredadwy, ac yna gwyllo wrth i ni dynnu'r llenni'n ôl i ddangos i chi'r wyddoniaeth y tu ôl i'r hud.

23 **Hud Gwyddoniaeth**
Technique - Dewch i brofi rhai rhithiau anghredadwy, ac yna gwyllo wrth i ni dynnu'r llenni'n ôl i ddangos i chi'r wyddoniaeth y tu ôl i'r hud.

27 - 31 **Hud Gwyddoniaeth**
Technique - Dewch i brofi rhai rhithiau anghredadwy, ac yna gwyllo wrth i ni dynnu'r llenni'n ôl i ddangos i chi'r wyddoniaeth y tu ôl i'r hud.

1
ION **Dathlu'r Flwyddyn Newydd**
Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd - Dewch i gael gwared ar felan y Flwyddyn Newydd â sesiwn Rafftio Dŵr Gwyn wefreiddiol, am £20 yr un yn unig.



Cyrraedd Yma

Dim ond milltir o ganol y ddinas, felly gallwch gerdded yn hamddenol, beicio, mynd ar y trê, defnyddio'r tacsï dŵr neu neidio ar fws. Mae'n hawdd cyrraedd Bae Caerdydd!

Trafnidiaeth Gyhoeddus
I gael gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, ewch i www.traveline-cymru.info

Â Bws
Mae'r baycar (gwasanaeth 6) yn gweithredu gwasanaeth cyson, cyflym ac uniongyrchol rhwng canol y ddinas a Bae Caerdydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae arosfannau bws yng nghanol y ddinas yn cynnwys Gorsaf Heol-y-Frenhines, Heol y Porth, Heol Eglwys Fair (Arcêd Wyndham) a thu ôl i'r Orsaf Reilffordd Ganolog. Mae gwasanaethau 1, 2, 7 ac 8 hefyd yn rhedeg i Fae Caerdydd. Ewch i www.cardiffbus.com am wybodaeth, amserlenni a phrisiau.

I gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau, gan gynnwys amseroedd a phrisiau tocynnau, ewch i'r wefan neu cysylltwch â Chanolfan Ymwelwyr Bae Caerdydd ar 029 2087 3573 i gael manylion am yr atyniadau.

visitcardiffbay.info

Yn y car
Dilynwch yr arwyddion am Fae Caerdydd. O du allan i Gaerdydd, ar yr M4, gadewch Gyffordd 33 a dilynwch yr A4232. O'r Dwyrain, gadewch Gyffordd 29, cymerwch y 3ydd troad oddi ar yr A48.

Ar y Bws Dŵr
Clywch yr hanes, sylwch ar y golygfeydd, ymlaciwch â ni ar fwrdd y Dywysoges Katharine. Teithio cynnes a chluad, gyda sylwebaeth ryfeddol, o Barc Bute i Fae Caerdydd - y cysylltiad di-drafft perffaith rhwng y ddinas a'r Bae. Bob awr rhwng 10.30am a 4.30pm o Barc Bute a rhwng 10am a 4pm o'r Pierhead.
☎ 07445 440874 🌐 www.cardiffboat.com

Parcio yn y Bae
Maes Parcio Aml-lawr Q-Park Bae Caerdydd

Mae'r maes parcio ar Stryd Pen y Lanfa sy'n cynnwys 1239 o leodd parcio ond ychydig funudau ar droed i Ganolfan Mileniwm Cymru. Mae'r maes parcio, a reolir gan y gweithredwr meysydd parcio sydd wedi ennill gwobrau, sef Q-Park UK Ltd, ar agor ac yn cael ei staffio 24/7 er mwyn sicrhau'r amgylchedd mwyaf diogel posibl. Lawrlwythwch yr App Gwobrau Q-Park ac ennill 6ed ymweliad am ddim! **Cewch ostyngiad o 10% pan fyddwch yn cadw lle ar-lein yn www.q-park.co.uk gyda'r cod: WINTER.**
Stryd Pen y Lanfa, Caerdydd, CF10 4PH
www.q-park.co.uk

Mae gan faes parcio Ceir Fôr-Forwyn leodd ar gyfer 380 o gerbydau, wedi'u lleoli oddi ar Stryd Stuart. Mae hefyd parcio talu ac arddangos ar y stryd ac mae meysydd parcio ar gael o amgylch y Bae gan gynnwys Stryd Havannah. Mae parcio i bobl anabl ar gael.